

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2025 (Ailgynull o 16 Rhagfyr, 2024).

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper a J.M. Norman.

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr J. Protheroe a N.J. Wood; a M. Evans (Aelod Lleyg).

COFNODION –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, 2024 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cadeirydd, Gareth Chapman, fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 7 ar yr agenda – Adroddiad Blynyddol Cwynion Corfforaethol. Natur y diddordeb oedd bod Gareth Chapman wedi codi mater cyffredinol yn ymwneud â phroses gwyno'r Cyngor.

ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2024/25 (CYF) –

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2024 fel y cynhwyswyd o fewn yr agenda.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol pe bai cyfeiriadau'n cael eu cyflwyno gydag adroddiad eglurhaol byr i amlinellu'r hyn a ddisgwyliwyd gan y Pwyllgor. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ymchwilio ymhellach.

Gofynnodd y Cyngorydd M. Hooper pryd y byddai'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau gyda'i ymgynghorwyr rheoli trysorlys. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg y byddai proses dendro ar gyfer ymgynghorydd y Cyngor yn cael ei chynnal yn yr haf. Roedd y contract presennol yn rhedeg am gyfnod cychwynnol o dair blynedd a oedd wedi'i ymestyn gan ddwy flynedd arall.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at £7.953 miliwn o ddyled yn ystod 2024/25 a gronwyd oherwydd cyfraddau llog uchel, heb unrhyw benderfyniad eto ynghylch ailariannu. Y cyngor gan ymgynghorydd rheoli trysorlys y Cyngor oedd i'r Cyngor dorri ei ddarpariaethau a'i bolisi'n dechnegol. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar gyfer hynny. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod Strategaeth Rheoli Trysorlys ddiwygiedig i adlewyrchu sefyllfa 2024/25 yn cael ei chynhyrchu, a fyddai'n cwblhau nifer o faterion gan gynnwys y rhai yn yr IFS-16. Y bwriad oedd i'r strategaeth ddiwygiedig gael ei hystyried gan y Cyngor ym mis Mawrth, a fyddai hefyd yn cynnwys dangosyddion cymhwysedd ar gyfer benthyca'r Cyngor.

Gofynnodd y Cyngorydd E. Goodjohn am eglurhad ar beth oedd y rheolau penodol ynghylch awdurdodi unrhyw achos o dorri polisi ac a oedd hynny'n gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD –

- (1) Bod Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2024/25 yn cael ei nodi.
- (2) Bod y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 yn egluro mater ynghylch awdurdodiad i dorri Polisi'r Cyngor ac a oedd angen cymeradwyaeth bellach.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

ARCHWILIO CYMRU: ADOLYGIAD O GYNALIADWYEDD ARIANNOL
CYNGOR BRO MORGANNWG GORFFENNAF 2024 (CYF) –

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024 fel y cynhwyswyd o fewn yr agenda.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Hooper at y darlun cenedlaethol ledled Cymru a gofynnodd sut olwg oedd ar dda o ran yr argymhellion a roddwyd i'r Cyngor, er enghraifft a fyddai'n ymwneud â setliadau cyllideb aml-flwyddyn neu rywbeth arall. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Cyllid nad oedd yr adroddiad cenedlaethol wedi'i

lunio eto gan Archwilio Cymru, ond ei fod yn ymwneud â rhywbeth arall heblaw cyllidebau aml-flwyddyn ac yn fwy ynghylch lefel y manylion a roddwyd gan rai Cynghorau a'u cynigion arbed.

Dywedodd y Cynghorydd E. Goodjohn y gellid gwneud gwelliannau i'r broses gyllidebu, gydag angen trafodaeth fwy agored ac ehangach ar bwysau cyllidebol y tu allan i leoliad Pwyllgor ffurfiol, gyda mwy o gyfleoedd i'r Cynghorwyr drafod a chael gwybod am heriau ariannol. Ychwanegodd fod angen mwy o wybodaeth ar y Cynghorwyr ynghylch pam y gwnaed penderfyniadau cyllidebol a pham y gwrthodwyd rhai cynigion arbed ac a oedd unrhyw gynigion amgen yn bodoli. Rôl y Cynghorwyr oedd edrych ar y broses sylfaenol o feddwl y tu ôl i benderfyniad ariannol ac a oedd yn gwneud synnwyr rhesymegol. I wneud hynny roedd angen mwy o wybodaeth a chyfleoedd i drafod ar y Cynghorwyr.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper fod y Pwyllgor wedi trafod opsiwn technegau cyllidebu sylfaen sero, gyda'r swyddogion yn dweud nad oedd gan y Cyngor yr adnoddau. Gyda'r posibilrwydd o setliadau cyllideb tymor hwy, gofynnodd y Cynghorydd Hooper a oedd cyllidebu sylfaen sero yn rhywbeth y gellid ei ystyried eto. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Cyllid mai'r meysydd allweddol oedd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a'i raglen ail-lunio, ac y byddai pob un o'r rheiny'n ystyried arbedion ariannol a oedd yn ofynnol gan y Cyngor. Byddai cyllidebu sylfaen sero'n defnyddio llawer o adnoddau ac roedd angen meddwl sut y gellid datblygu'r dull hwnnw.

Sylwodd y Cadeirydd ar bwysigrwydd Cynllun Corfforaethol y Cyngor i adlewyrchu pa flaenoriaethau y gallai'r Cyngor eu fforddio mewn gwirionedd. Roedd y Cyngor hefyd yn wynebu heriau o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd nad oedd bob amser yn dod â chyllid ychwanegol, ac felly byddai fel arfer yn rhoi pwysau ar adnoddau presennol. Nodwyd bod y rhan fwyaf o grantiau'n cael eu dyrannu ar sail ddamcaniaethol a allai, pe baent yn cael eu tynnu'n ôl oherwydd diffyg cyllid, godi disgwyliadau'r cyhoedd. Roedd angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau beiddgar ar ba wasanaethau y gallai eu fforddio a chael deialog gyda'r cyhoedd ar gynlluniau a chyllidebau'r Cyngor.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, mae'r Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo camau gweithredu'r Cyngor yn Atodiad B i'r adroddiad.
- (2) Bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w arolgyu a'i gymeradwyo, gyda'r Cabinet hefyd yn cael gwybod am farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r canlynol:
 - Gellid gwneud gwelliannau i'r broses gyllidebu, gydag angen dadl fwy agored ac ehangach ar bwysau cyllidebol y tu allan i leoliad Pwyllgor ffurfiol, gyda mwy o gyfleoedd i Gynghorwyr drafod a chael gwybod am heriau ariannol.

- Roedd angen mwy o wybodaeth ar gynghorwyr ynghylch pam y gwnaed penderfyniadau cyllidebol a pham y gwrthodwyd rhai cynigion arbed ac a oedd unrhyw gynigion amgen yn bodoli.
- Rôl y Cynghorwyr oedd edrych ar y broses sylfaenol o feddwl y tu ôl i benderfyniad ariannol ac a wnaethant wneud synnwyr rhesymegol. I wneud hynny roedd angen mwy o wybodaeth a chyfleoedd ar y Cynghorwyr i drafod.
- I'r Cyngor archwilio ymhellach y cyfle i ystyried defnyddio cyllidebau sylfaen sero;
- Pwysigrwydd Cynllun Corfforaethol y Cyngor i adlewyrchu pa flaenoriaethau y gallai'r Cyngor eu fforddio mewn gwirionedd;
- Heriau o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd nad oedd bob amser yn dod â chyllid ychwanegol, a oedd fel arfer yn rhoi pwysau ar adnoddau presennol. Dyrannwyd grant y rhan fwyaf o achlysuron ar sail ddamcaniaethol y gellid ei dynnu'n ôl ac felly gallai godi disgwyliadau'r cyhoedd.
- Roedd angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau beiddgar ar ba wasanaethau y gallai fforddio ac i gael deialog gyda'r cyhoedd ar gynlluniau a chyllidebau'r Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

ADRODDIAD BLYNYDDOL CHWYTHU'R CHWIBAN (SM / PGCD) –

Mabwysiadodd y Cyngor y Polisi Chwythu'r Chwiban (y Polisi) yn 2014. Yn dilyn adolygiad yn 2019, cymeradwywyd y Polisi diwygiedig gan y Pwyllgor Archwilio ar 3 Chwefror 2020.

Ym mis Mehefin 2022, lansiodd y Cyngor yr Hyb "Codi Llais" ar Staffnet, gan gynnig un pwynt mynediad i staff gael gwybodaeth am y Polisi. Roedd yr Hyb yn cynnwys ffurflen ar-lein ar gyfer adrodd am faterion yn gyflym ac yn hawdd, gyda chefnogaeth gwasanaeth ffôn Codi Llais cyfrinachol, gan sicrhau ffordd ddiogel a chyfrinachol i staff adrodd am bryderon a gwmpesir gan y Polisi.

Ym mis Hydref 2023, cynhaliwyd ymgyrch hyrwyddo gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth staff o'r Polisi a'r opsiynau adrodd a oedd ar gael. Roedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff ynghyd â pharodrwydd i adrodd am broblemau yn hanfodol i lwyddiant y Polisi.

Dangosodd y cynnydd yn y digwyddiadau chwythu'r chwiban a adroddwyd effeithiolrwydd yr ymdrechion cyfathrebu a hyrwyddo wrth godi ymwybyddiaeth o'r Polisi a'r amddiffyniadau cyfreithiol a roddwyd i chwythwyr chwiban, a thrwy hynny annog staff i adrodd am broblemau. Nid oedd patrwm amlwg, ond dangosodd tueddiadau diweddar gynnydd mewn ymddygiad staff yn cynnwys bwlio, erledigaeth, a gweithredoedd gwahaniaethol. Yn arbennig, roedd rhai o'r patrymau hyn yn deillio o sawl adroddiad ailadroddus yn ymwneud â'r un unigolyn.

Byddai mwy o godi ymwybyddiaeth yn cael ei integreiddio i'r Arolwg Staff Blynyddol, a fyddai'n cael ei gynnal yn gynnar y flwyddyn nesaf, a chydag adolygiad canol blwyddyn yn dilyn hynny. Byddai cynnydd yn yr achosion hyn yn cael ei olrhain, gyda'r canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn toriad haf 2025/26.

Ers 2022/23, bu tuedd gynyddol mewn adrodd. Cyn y cyfnod hwn, nid oedd patrwm amlwg, gyda nifer isel o achosion, gan gyrraedd uchafbwynt o saith yn 2018/19.

Roedd y nifer cyfartalog o adroddiadau chwythu'r chwiban y mis wedi cynyddu'n sylweddol o flwyddyn ariannol 2021/22 hyd at flwyddyn ariannol 2023/24, gan godi i gyfartaledd o 1.6 adroddiad y mis o gymharu â 0.1. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 hyd at 31 Hydref 2024, roedd y cyfartaledd yn 0.9 adroddiad y mis.

Gellid priodoli'r duedd hon ar i fyny mewn adrodd i hyrwyddo'r Polisi yn well ac adrodd haws trwy'r Hyb Codi Llais ar Staffnet a'r llinell ffôn Codi Llais. Roedd cyfanswm o 41 adroddiad wedi'u derbyn ers ei lansio yn 2022 hyd at fis Hydref 2024.

O'r 64 digwyddiad a adroddwyd ers 2015/16, roedd 13 (20%) yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd. Derbyniwyd naw o'r adroddiadau hyn ers 1 Ebrill 2024, adroddwyd tri yn ystod 2022/23, gyda'r hynaf yn dyddio'n ôl i fis Mawrth 2023. Ystyriwyd bod wyth (12%) o'r adroddiadau y tu allan i'r Polisi a chawsant sylw o dan bolisiau eraill y Cyngor fel y Polisi Cwynion.

O'r 42 ymchwiliad a gwblhawyd, ni chafodd 31 (74%) eu cadarnhau. Dim ond tri (7%) o'r honiadau a gafodd eu cadarnhau'n llawn, a chafodd wyth (19%) eu cadarnhau'n rhannol. Ni chafodd unrhyw honiadau eu cadarnhau yn 2023/24, gyda dim ond un yn cael ei gadarnhau'n rhannol. Ar gyfer 2024/25 hyd yma, nid oedd unrhyw honiadau wedi'u cadarnhau na'u cadarnhau'n rhannol.

O'r 11 adroddiad chwythu'r chwiban a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 hyd yma, roedd tri yn gysylltiedig â'r Amgylchedd a Thai, dau â Dysgu a Sgiliau, un ag Adnoddau Corfforaethol, pedwar â Gwasanaethau Cymdeithasol, ac un â Lleoedd.

Wrth gymharu â chofnodion wedi'u cadw ers 2015/16, dangosodd pob Cyfarwyddiaeth duedd ar i fyny o ran adrodd honiadau, er bod y niferoedd cyffredinol yn parhau'n isel. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau ers 2015/16 yn ymwneud â'r Amgylchedd a Thai, gan gynhyrchu 25 o honiadau, ac yna â'r Gwasanaethau Cymdeithasol gydag 20 o honiadau.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Norman a oedd unrhyw dueddiadau penodol o ran adrannau'r Cyngor. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y bu cynnydd yn nifer yr adroddiadau chwythu'r chwiban yn gyffredinol, gyda llawer ohonynt yn cael eu hatgyfeirio i gael eu trin o dan y polisi Adnoddau Dynol perthnasol. Roedd gwybodaeth yn awgrymu bod y pryderon a fynegwyd o fewn y polisi yn ymwneud â bwlio, aflonyddu ac erledigaeth, ac roedd tuedd hefyd lle roedd sawl pryder chwythu'r chwiban a adroddwyd mewn perthynas â'r un unigolion. Byddai gwybodaeth bellach a mwy manwl yn cael ei rhoi yn yr adroddiad diweddar nesaf yn y dyfodol.

Dyweddodd N. Ireland (Is-gadeirydd ac Aelod Lleyg) y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r adroddiad gynnwys mwy o wybodaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau ynghyd â'r newidiadau a wnaed gan y Cyngor o ganlyniad i'r honiadau. Ychwanegodd y byddai hefyd yn ddefnyddiol deall pwy oedd yn adrodd digwyddiadau a beth ddigwyddodd iddyn nhw a'r cyflawnwyr honedig h.y. a oedden nhw'n dal i gael eu cyflogi gan y Cyngor. Yn ogystal, byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gellid cyflwyno gwybodaeth mewn graff neu mewn tabl.

Mynegodd y Cynghorydd M. Hooper bryder ynghylch ymwybyddiaeth o fewn y Cyngor, a dywedodd ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn parhau i godi'r polisi gyda staff. Nododd y Cynghorydd Hooper y pwynt am gefnogi aelodau Undebau Llafur a gofynnodd am bobl nad ydynt yn aelodau Undebau Llafur ac a fyddai cynrychiolwyr Undebau Llafur yn gallu cefnogi'r rheiny hefyd. Yn olaf, gofynnodd y Cynghorydd Hooper sut y mae'r ffigurau ar gyfer Bro Morgannwg yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd nad oedd cyfle wedi bod i gyflwyno data meincnodi gydag awdurdodau eraill ar gyfer yr adroddiad, ond roedd yn rhywbeth a fyddai'n cael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. O ran codi ymwybyddiaeth, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod ei rhagflaenydd wedi cynnal ymgyrch sylweddol yn y maes hwnnw, ac roedd bwriad i barhau i godi ymwybyddiaeth drwy lwybrau fel yr arolwg staff. O ran cymorth gan Undebau Llafur, roedd trafodaethau gyda swyddogion dros y misoedd diwethaf wedi nodi bod unigolion a oedd wedi adrodd yn ddiennw wedi derbyn cymorth gan eu Hundebau Llafur, ond byddai ystyriaeth bellach ynghylch sut y derbyniodd pob unigolyn gymorth pe na bai'n aelodau o Undeb Llafur. Bydd hyn yn cael ei ystyried drwy ddigwyddiad gweithdy i edrych ar y broses a'r gweithdrefnau.

O ran strwythur yr adroddiad, ychwanegodd y Cadeirydd y dylid ystyried perthnasedd peth o'r wybodaeth, er enghraifft, a oedd data ym mharagraffau 2.4 i 2.7 yn ychwanegu unrhyw werth ac a oedd gwybodaeth yn ôl i 2015/16 yn berthnasol mewn gwirionedd. Yn ogystal, roedd gwybodaeth ym mharagraffau 2.12, 2.13 a 2.14 yn anodd ei deall gyda 64 o ddigwyddiadau a adroddwyd yn 2015 o dan 2.12, gyda 2.13 yn amlinellu bod 42 ymchwiliad wedi dod i ben hyd at 31 Hydref. Gallai'r adroddiad fod yn gliriach o ran amseroldeb yr ymchwiliadau hynny a oedd yn dal i fynd rhagddynt. Dywedodd y Cadeirydd hefyd y byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad o'r hyn a ddysgwyd pe bai honiad wedi cael ei gadarnhau, yn ogystal â dadansoddiad gan bob Cyfarwyddiaeth yn enwedig mewn perthynas â themâu ac a oedd unigolion yn dal i fod yn eu swydd. O ran codi ymwybyddiaeth, ychwanegodd y Cadeirydd ei bod yn ddefnyddiol gweld y cyfraddau ymateb ar gyfer yr Arolwg Staff.

O ran amseroldeb, gofynnodd y Cynghorydd Hooper a oedd person a oedd â phryder drwy'r polisi chwythu'r chwiban, na chafodd ei ddatrys o fewn yr amserlen, yn gallu codi'r mater drwy'r polisi Cwynion. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw achosion lle'r oedd y chwythwr chwiban wedi mynd yn anfodlon ynghylch yr amser yr oedd wedi'i gymryd i ymateb i adroddiad. Cydnabuwyd ei bod wedi cymryd cryn dipyn o amser i ymateb i rai o'r adroddiadau gan fod heriau o ran adnabod swyddog ymchwilio. Felly, mewn rhai achosion, roedd yn rhaid i'r Cyngor

ddibynnu ar ymchwilyr allanol. Roedd hwnnw'n faes o ffocws, a byddai cynnydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi cynnwys yr adroddiad.
- (2) Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i gael adolygiad canol blyddyn mewn perthynas â pholisi a chyfyngiadau a digwyddiadau.
- (3) Bod y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn ystyried sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch cynnwys a fformat adroddiadau yn y dyfodol.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION CORFFORAETHOL 2023/24 (PW) –

Roedd y Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Cwynion a Phryderon Corfforaethol Enghreifftiol Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2013. Roedd achwynwyr a oedd yn parhau'n anafdlon ar ôl Camau 1 a 2 y Polisi yn gallu cyfeirio eu cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC).

Trosglwyddodd y gwaith o gofnodi a rheoli Cwynion a Chanmoliaeth o Oracle CRM i blatfform GovService Granicus ym mis Awst 2022. Roedd y rhain yn eithrio cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yr ymchwiliwyd iddynt o dan Reoliadau Gweithdrefn Gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 ac a adroddwyd ar wahân.

Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu ac asesu gallu'r Awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol a gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r Awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol. Roedd y darpariaethau hyn yn Rhan 6 o'r ddeddfwriaeth a oedd yn ymwneud â Pherfformiad a Llywodraethu Prif Gynghorau a Dyletswydd Prif Gynghorau i adolygu eu perfformiad.

Diben y polisi oedd sicrhau bod achwynwyr yn cael ymateb cyson a theg. Roedd cofnodi a monitro cwynion yn galluogi'r Cyngor i:

- Gael cipolwg ar foddhad dinasyddion o'r gwasanaethau a ddarperir;
- Deall pa mor fodlon oedd cwsmeriaid ar sut yr ymchwiliodd y Cyngor i gwynion;

- Monitro ymatebolrwydd i ganllawiau statudol a disgwyliadau cwsmeriaid o ran pa mor gyflym y cwblhaodd y Cyngor ymchwiliadau i gwynion (ymatebolrwydd);
- Nodi potensial i wella gwasanaethau drwy ddadansoddi'r hyn a ddysgwyd o gwynion.

Dangosodd dadansoddiad o wybodaeth am gwynion ar gyfer 2023/24 gynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd i 881 (495) yn unol â'r duedd hirdymor o gwynion yn cynyddu. Dyma'r nifer uchaf o gwynion blynyddol a gofnodwyd ers 2013, ac roedd yn uwch na'r cyfartaledd blynyddol dros 10 mlynedd sef 439.

Roedd ymatebolrwydd, o ran cadw at derfynau amser, wedi bod yn ffocws allweddol ar gyfer gwella ac ymyriadau gan gynnwys gwella systemau a rhoi hyfforddiant ymchwilio i gwynion i gydweithwyr a oedd wedi cael eu cyflogi. O ganlyniad, roedd y duedd o leihau perfformiad yn y maes wedi'i sefydlogi gyda pherfformiad o 59% o gwynion wedi'u datrys o fewn terfynau amser ar gyfer 2023/2024 a 2022/23 a 60.9% yn 2021/22.

Gwnaeth OGCC dderbyn 77 cwyn yn ymwneud â'r Cyngor yn ystod y cyfnod. Roedd hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â 49 yn 2022/23 a dyma'r nifer uchaf o gwynion mewn un flwyddyn.

Ni symudwyd unrhyw gwynion ymlaen i ymchwiliad; fodd bynnag datryswyd 15 cwyn drwy Benderfyniad Cynnar ac ystyriwyd bod 27 (15) yn Gynamserol. Roedd 12 (4) allan o awdurdodaeth ac roedd 17 (19) yn achosion eraill a gafodd eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol. Atodwyd Llythyr Blynyddol llawn OGCC (2023/24) yn Atodiad B yr adroddiad.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn manylu ar y perfformiad cwynion ar gyfer Cyfarwyddiaethau yn 2023/24 ac yn cynnwys tueddiadau perfformiad ers 2014/15.

Dangosodd ymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd gyda thrigolion a wnaeth gwynion yn ystod 2023/24 fod ymatebolrwydd a chyfathrebu yn feysydd allweddol a oedd yn effeithio ar foddhad achwynwyr.

Ym mis Ebrill 2022, gweithredodd y Cyngor y Polisiâu Gweithredoedd Annerbyniol gan Ddinasyddion a Chyfyngau Cymdeithasol. Nid oedd y Polisi ar Weithredoedd Annerbyniol gan Ddinasyddion wedi cael ei gymhwyso i unrhyw ddinesydd ers ei fabwysiadu.

Ar ddyddiad yr adroddiad, roedd 12 cyfrif wedi'u blocio ar 'X' a 14 ar Facebook o dan y Polisi Cyfyngau Cymdeithasol. Ni chafodd unrhyw gyfrifon eu blocio rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2024.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E. Goodjohn at 'y pethau pwysig' a gofynnodd am yr hyfforddiant a oedd ar gael i staff. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol - Cysylltiadau Cwsmeriaid fod hyfforddiant wedi'i roi gan swyddog o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ran nodi beth oedd a beth nad oedd yn gŵyn, arfer da o ran ymateb, amseroldeb a defnyddio iaith a jargonau. Yn ogystal, cynhaliwyd gweithdy gyda staff y Cyngor a oedd yn cwblhau ymchwiliadau i edrych

ar rywfaint o'r data o ran ymatebolrwydd a rhywfaint o'r adborth a gafwyd o rywfaint o'r ymchwil defnyddwyr fel ffordd o roi gwybod i gydweithwyr am yr hyn a oedd yn bwysig i drigolion. Cydnabuwyd bod gwaith yn cael ei wneud gan y Cyngor o ran sut yr ymatebodd i gwynion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at broses gynllunio ariannol y Cyngor a dywedodd fod gan y gwasanaethau cwsmeriaid rôl allweddol wrth gynorthwyo i asesu effaith penderfyniadau, yn enwedig wrth i wasanaethau ddod yn gyfyngedig gan achosi cynnydd tebygol yn nifer y cwynion. Gofynnodd y Cynghorydd Hooper a fu unrhyw gwynion yn ymwneud â staff y Cyngor yn gyrru cerbydau'r Cyngor a pheidio â chadw at y terfynau cyflymder newydd o 20mya. Cyfeiriodd hefyd at amseroldeb datrys cwynion a gofynnodd a oedd unrhyw faterion yn achosi oedi. O ran torri terfynau cyflymder o 20mya, dywedodd y Rheolwr Gweithredol nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gwynion Cam Un, ond byddai'n gwirio ac yn adrodd yn ôl. O ran amseroldeb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod llawer o welliant wedi bod yn y maes hwnnw. Bu problem gyda'r system a nifer y staff a hysbyswyd bod cwyn yn bodoli. Roedd hynny wedi golygu bod rhai gwelliannau wedi bod i'r feddalwedd a arweiniodd hefyd at hysbysu swyddogion pan oedd y terfyn o 10 diwrnod yn agosáu.

Dywedodd y Cadeirydd, mewn perthynas â chyfathrebiadau cwyno a anfonwyd at y rhai a oedd wedi codi'r gŵyn, y dylid cynnal arolwg enghreifftiol o'r llythyrau at ddiben sicrhau ansawdd i sicrhau bod y wybodaeth a roddir yn gyson a bod achwynwyr yn cael gwybod y gallent uwchgyfeirio i Gam 2 ac i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru pe baent yn parhau'n anhapus.

Hefyd ac o ran adroddiadau yn y dyfodol, byddai'n ddefnyddiol ystyried faint o ddata tueddiadau i'w gynnwys a chyfyngu data hanesyddol i'r hyn a oedd ei angen i ddeall cyd-destun perfformiad. Roedd tudalen 9 Adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Atodiad E yn dangos bod 50 o argymhellion wedi'u gwneud yn ystod 2023/24 mewn perthynas â Chyngor Bro Morgannwg. Byddai'n ddefnyddiol gwybod ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol beth oedd yr argymhellion yn ymwneud ag ef a sut y cawsant sylw.

Dywedodd y Cynghorydd E. Goodjohn fod cyfraddau perfformiad a amlygwyd gan gynnwys nifer yr atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â Bro Morgannwg yn peri pryder ac roedd yn bwysig i'r Cyngor ystyried cyfleoedd cwynion i ddysgu a gwella gwasanaethau.

Wedi hynny, y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi cynnwys yr adroddiad ac Atodiad A (Adroddiad Blynyddol ar Gwynion a Chanmoliaeth).
- (2) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i dderbyn diweddariad blynyddol mewn perthynas â Chwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol.
- (3) BOD yr adroddiad a sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu cyfeirio at y Cabinet iddynt gael eu hystyried. Dyma'r sylwadau:

- Ar gyfer proses gynllunio ariannol y Cyngor, roedd gan wasanaethau cwsmeriaid rôl allweddol wrth gynorthwyo i asesu effaith penderfyniadau, yn enwedig gan fod gwasanaethau'n dod yn gyfyngedig byddai'n debygol y byddai nifer y cwynion yn cynyddu;
- Mewn perthynas â chyfathrebiadau'r gŵyn a anfonwyd at y rhai a oedd wedi codi'r gŵyn, arolwg enghreifftiol o'r llythyrau sydd i'w wneud at ddiben sicrhau ansawdd i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn gyson a chynghorir achwynwyr y gallant uwchgyfeirio i Gam 2 ac i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os ydynt yn parhau'n anhapus;
- O ran adroddiadau yn y dyfodol, ystyried faint o ddata tueddiadau i gynnwys a chyfyngu data hanesyddol i'r hyn sydd ei angen i ddeall cydestun perfformiad;
- Roedd tudalen 9 o Adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Atodiad E yn dangos bod 50 o argymhellion wedi'u gwneud yn ystod 2023/24 mewn perthynas â Chyngor Bro Morgannwg. Byddai'n ddefnyddiol gwybod ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol beth oedd yr argymhellion yn ymwneud â nhw a sut y cawsant sylw;
- Roedd cyfraddau perfformiad a amlygwyd gan gynnwys nifer yr atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â Bro Morgannwg yn peri pryder ac roedd yn bwysig i'r Cyngor ystyried cyfleoedd cwyno i ddysgu a gwella gwasanaethau.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

DIWEDDARIAD CH2: RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU 2024 - CYNGOR BRO MORGANNWG (CAC) –

Cyflwynodd yr adroddiad i'r Aelodau y diweddariad Chwarter 2 ar raglen waith Archwilio Cymru fel yr oedd yn cyd-fynd â Chynllun Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg 2024.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a nodi'r cynnydd a wnaed ar Raglen Waith Archwilio Bro Morgannwg yn Chwarter 2 ac ar ôl ystyried, cyfeirio'r adroddiad i'r Cabinet i'w arolygu.

Cadarnhawyd bod gwall ar dudalen Atodiad A, a chwmpas y gwaith sicrwydd o'r enw – Gwaith Prosiect Lleol – adolygiad o gwynion. Nodwyd bod cynnwys balansau ysgol yn gamgymeriad.

Dywedodd Archwilio Cymru fod gwaith yn ymwneud â chyfyngiadau ariannol a gwasanaethau llywodraeth leol disgrisiynol bellach wedi newid ac y byddai'n cael ei ailffocysu ar wasanaethau plant. Y rhesymeg dros hynny oedd yn seiliedig ar waith asesu a wnaed gan Archwilio Cymru a'i asesiad mewnol a newid mewn blaenoriaethau.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, mae'r Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi cynnwys yr adroddiad.
- (2) Y dylid cyfeirio'r adroddiad i'r Cabinet i'w oruchwylio.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

CYNNIG I DDIWYGIO POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW 2024/25
(CAC) –

Yr Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) oedd y dull a ddefnyddiwyd gan Awdurdodau Lleol i godi cost eu gwariant cyfalaf a ariannwyd yn wreiddiol gan ddyled ar eu cyfrifon refeniw dros amser. Cyn 2007/08, nodwyd y dull o gyfrifo'r IDR mewn deddfwriaeth, o 2007/08 ymlaen roedd Awdurdodau Lleol wedi bod yn rhydd i osod eu polisi eu hunain ar gyfrifo'r IDR.

Ar gyfer gwariant cyfalaf â chymorth, gweithredodd y Cyngor y Dull "Bywyd Asedau" wrth gyfrifo'r IDR. Pennwyd yr IDR drwy godi'r gwariant dros fywyd defnyddiol disgwylidig bywydau asedau cyfartalog (40 mlynedd) Asedau'r Cyngor (ddim y Cyfrif Refeniw Tai) mewn rhandaliadau cyfartal, gan ddechrau yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol.

Yn dilyn rhywfaint o feincnodi diweddar ar draws Awdurdodau Lleol eraill Cymru, roedd y Cyngor wedi nodi nifer o Awdurdodau a ddefnyddiodd fywyd asedau o 50 mlynedd yn hytrach na 40 mlynedd, ac eraill a ddefnyddiodd ddull wedi'i hollti o ran y dull bywyd asedau (mae manylion yn ddiweddarach yn yr adroddiad) tra'n parhau i gynnal darpariaeth ddarbodus.

Gan ystyried y canllawiau y mae'n rhaid i'r Cyngor lynu wrthynt, roedd y tîm wedi gwneud darn o waith yn edrych ar y bywydau asedau cyfartalog a ariannwyd o fenthyca â chymorth ar gyfer y deg mlynedd ariannol flaenorol lle'r oedd yr asedau hynny wedi'u hariannu drwy fenthyca â chymorth ac o ganlyniad yn rhannol i gyfraniadau sylweddol tuag at Gynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf a oedd fel arfer â bywyd asedau o 65 mlynedd. Yn dilyn y dadansoddiad hwn, y bywyd asedau cyfartalog dros y cyfnod hwn oedd 52.1 mlynedd.

Felly, cynigiodd y Cyngor gymhwysu'r dull Bywyd Asedau i gyfrifo'r IDR ar fenthyca â chymorth a oedd yn weddill yr aethpwyd iddo hyd at 31 Mawrth 2025 gan ddefnyddio cyfrifiad llinell syth dros 50 mlynedd. Byddai'r Cyngor yn defnyddio'r Dull Bywyd Asedau i gyfrifo'r IDR ar fenthyca â chymorth yr aethpwyd iddo ar neu ar ôl 1 Ebrill 2025 gan ddefnyddio cyfrifiad llinell syth dros nifer briodol o flynyddoedd (gan ddefnyddio'r bywyd asedau cyfartalog ym mis Chwefror yn y flwyddyn ariannol

gyfredol), yn dibynnu ar y cyfnod o amser y byddai'r gwariant cyfalaf yn debygol o gynhyrchu buddion a oedd yn cyfateb i fywyd yr ased.

Roedd yr IDR wedi'i gysylltu'n gynhenid â'r cysyniad o'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (GAC) yn y Cod Materion Ariannol. Roedd y GAC yn cynrychioli cyfanswm holl wariant cyfalaf y Cyngor yn y gorffennol, llai cyfanswm yr ariannu cyfalaf a gymhwyswyd ac eithrio dyled. Dim ond math dros dro o gyllid oedd dyled gan fod rhaid ad-dalu benthyciadau. Felly, roedd y GAC yn cynrychioli angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf, a'r swm nad oedd wedi'i ariannu'n barhaol eto. Yr IDR oedd y prif ddull o ariannu'r gwariant hwnnw yn barhaol.

Cymhwysu dull rhandaliad cyfartal dros y bywyd asedau cyfartalog (fel y nodwyd uchod) i GAC Benthycia â Chymorth y Cyngor oedd methodoleg ddewisol y Swyddog Adran 151 ar gyfer y Cyngor gan ei fod yn gwbl gyson â'r ddyletswydd statudol i wneud darpariaeth refeniw darbodus ar gyfer adbrynu dyled. Er y byddai hyn yn arwain at broffil GAC uwch i ddechrau na'r dull presennol, sicrhodd fod y gwariant cyfalaf a ariannwyd drwy fenthyca yn cael ei ad-dalu o fewn y bywyd asedau disgwylid yn hytrach nag ymestyn y tu hwnt iddo yn unol â chanllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA).

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, yr oedd

PENDERFYNWYD – BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25 ar gyfer cefnogi benthycia.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod a chefnogi'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Ionawr 2025.

DIWEDDARIAD 2024/25 AR DRACIO PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO (CAC) –

Roedd cofnod Orlhain Penderfyniadau wedi'i greu i gynorthwyo'r Pwyllgor i olrhain y penderfyniadau a wnaed wrth arfer ei swyddogaethau.

Atodwyd cofnod o'r holl benderfyniadau ffurfiol a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd yma yn ystod Blwyddyn Fwrdeistrefol 2024/25 yn Atodiad A yr adroddiad.

Argymhellwyd y Pwyllgor i nodi cynnwys Atodiad A a gwneud sylwadau, fel y bo'n briodol.

Argymhellwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael gwybod yn rheolaidd am yr holl benderfyniadau heb eu gwneud.

Yn ogystal, yn Atodiad B yr adroddiad roedd diweddariadau gan y Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol ar gyfer tri archwiliad sicrwydd cyfyngedig – Dyledwyr, Cartrefi Preswyl – rheoli stoc bwyd a Chanolfannau Hamdden – rheoli contractau a pherfformiad.

Cytunwyd i rannu gwybodaeth o 2022/23 gyda'r Pwyllgor.

Wedi ystyried yr adroddiad, yr oedd

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys y cofnod Tracio Penderfyniadau a gynhwyswyd yn Atodiad A i'r adroddiad a bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn diweddariadau rheolaidd bob chwarter.

(2) Nodi cynnwys Atodiad B i'r adroddiad – Diweddariadau ar gyfer tri archwiliad sicrwydd cyfyngedig – Dyledwyr, Cartrefi Preswyl – Rheoli Stoc Fwyd a Chanolfannau Hamdden – Rheoli Contractau a Pherfformiad.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL (PGAMR) –

Manylwyd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol fel ar 31 Hydref 2024 yn Atodiad A yr adroddiad ac roedd crynodeb ohono yn Atodiad B yr adroddiad. Dangosodd fod 22 adolygiad archwilio a gynlluniwyd wedi'u cwblhau sef cyfradd gwblhau o 39%.

Yn seiliedig ar yr asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol, roedd barn archwilio wedi'i rhoi i 21 o'r 22 archwiliad a gwblhawyd. Roedd 19 (90%) archwiliad wedi derbyn Sicrwydd Sylweddol neu Resymol ac roedd 2 archwiliad wedi derbyn Sicrwydd Cyfyngedig.

Yn rhan o gynllun 2024/25, roedd 14 o archwiliadau nad oeddent wedi'u cynnal na'u cwblhau yn 2023/24. Roedd Atodiad C yr adroddiad yn dangos statws yr archwiliadau hyn; roedd 7 wedi'u cwblhau, roedd 6 ar y gweill ac roedd 1 eto i'w ddyrannu.

Hyd yn hyn roedd 71 o argymhellion wedi'u gwneud i wella'r amgylchedd rheoli. Roedd y cynnydd a oedd yn cael ei wneud wrth weithredu'r argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y tîm Archwilio a'i adrodd i'r Pwyllgor.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod cynnydd y cynllun hyd at 31 Hydref 2024 yn 39%, gyda tharged o 50% erbyn diwedd mis

Rhagfyr. Pe bai'n debygol y byddai'r cynnydd yn llai na 80% erbyn mis Mawrth, yna byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod am y rhesymau pam.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2024/25.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

MONITRO ARGYMHELLION (PGAMR) –

Rhoddodd yr adroddiad ddatganiad sefyllfa i'r Pwyllgor ar argymhellion archwilio mewnol a wnaed i nodi'r rheiny a weithredwyd a'r rheiny a oedd heb eu gweithredu.

Roedd datganiad sefyllfa o ran argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig archwilio mewnol wedi'u gwneud, wedi'u gweithredu a heb eu gweithredu fel ar 31 Hydref 2024 i'w weld yn Atodiad A yr adroddiad.

Gwnaed argymhelliad i wella gwendid a nodwyd mewn rheolaeth i liniaru'r risg a nodwyd, felly hyd nes y gweithredwyd yr argymhelliad roedd y risg yn parhau.

Hyd yn hyn, roedd 4 argymhelliad blaenoriaeth uchel a 30 argymhelliad blaenoriaeth canolig wedi'u gwneud yn dilyn gorffen archwiliadau o gynllun blynyddol eleni. Cytunwyd ar bob un.

Ar hyn o bryd roedd 1 argymhelliad a wnaed mewn archwiliad a gwblhawyd yn ystod 2023-24 heb ei weithredu ac roedd manylion hyn yn Atodiad B yr adroddiad.

Roedd 2 argymhelliad hefyd a wnaed mewn archwiliad a gwblhawyd yn 2022-23 a oedd yn dal i fod â dyddiad gweithredu yn y dyfodol. Roedd manylion y rhain yn Atodiad C yr adroddiad.

Roedd y tîm Archwilio'n monitro'r argymhellion yn rheolaidd a byddai unrhyw oedi neu faterion diangen yn cael eu hamlygu i Uwch Reolwyr ac yn y pen draw, y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cynghorydd E. Goodjohn am ddiweddariad ar adolygiad dilynol tendr y gwasanaethau adeiladau. Mewn ymateb, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod Archwilio Mewnol yn gweithio gyda'r gwasanaeth o ran hyn a bod gweithdy wedi'i gynnal gan bartneriaid. Ar hyn o bryd roedd y gwasanaeth yn caffael contract hirdymor a fyddai'n darparu ar gyfer nifer o dyniadau i lawr mewn darnau unigol o waith.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at argymhellion yn ymwneud â'r cod ymddygiad swyddogion, gydag amserlen Atodiad B yn rhoi dyddiad cwblhau y cytunwyd arno sef 30 Awst 2024. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw reswm dros yr oedi. Mewn ymateb,

dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y mater wedi cael ei drafod yng nghyfarfod blaenorol y Tîm Arweinyddiaeth Strategol, ac roedd y mater mewn perthynas â mynediad ar-lein i'r polisïau ar gyfer dechreuwyd newydd. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a'r Rheolwr Gweithredol Cylch Bywyd fynychu'r cyfarfod nesaf i roi sicrwydd ac adroddiad diweddar.

Mewn perthynas â'r gwaith dilynol o ran SDD DCT, dywedodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn gysylltiedig â sut y derbyniodd y Cyngor daliadau arian parod dros y ffôn a delio â data personol yn ddiogel. Dywedodd y Pennaeth Archwilio y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei rhoi.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r datganiad sefyllfa ar argymhellion archwilio mewnol a wnaed, a weithredwyd ac sy'n weddill ar 31 Hydref, 2024.
- (2) Gofyn i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a Chylch Oes y Rheolwr Gweithredol fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion hwyr ar gyfer Adolygiad Archwilio Cod Ymddygiad Swyddogion. .

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

POLISIAU GWRTH-DWYLL (PGAMR) –

Un o swyddogaethau craidd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio effeithiol oedd ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg y Cyngor, yr amgylchedd rheoli a pholisïau gwrth-dwyll a llygredd cysylltiedig.

Roedd Strategaeth a Fframwaith Gwrth-dwyll y Cyngor yn rhan annatod o hynny ac felly yn Atodiad A yr adroddiad roedd y Strategaeth a'r Fframwaith Gwrth-dwyll diweddaredig.

Roedd y Strategaeth a'r Fframwaith Gwrth-dwyll yn amlinellu nodau ac amcanion y Strategaeth, yn nodi risgiau twyll ac yn cynnwys camau i gefnogi'r Cyngor i wella sut roedd yn gwrthsefyll twyll, llwgrwobrwyo a llygredd, a'i wyndwch o ran y rhain.

Er mwyn cefnogi'r Strategaeth hon, roedd y Polisi Gorfodi Twyll Corfforaethol, y Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd, y Polisi Atal Gwyngalchu Arian a'r Polisi Atal Osgoi Treth i gyd wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol neu newidiadau i arferion gwaith.

Roedd y polisïau hyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu diwylliant o onestrwydd, uniondeb a gwrthwynebiad i dwyll, llygredd a llwgrwobrwyo.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd rhestr wirio arolwg y fenter twyll genedlaethol wedi'i hystyried wrth ddrafftio'r polisïau newydd. Eglurodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai'n cael ei hystyried yn rownd bresennol y fenter twyll genedlaethol.

Yr oedd

PENDERFYNWYD – Y dylid cytuno ar Bolisïau Atal Twyll wedi'u diweddarau'r Cyngor gan gynnwys Strategaeth a Fframwaith Atal Twyll y Cyngor a'u cyfeirio at y Cabinet i'w cymeradwyo.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL 2024/25 (PGAMR) –

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl.

Derbyniodd adroddiadau a chyflwyniadau drwy gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r chyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn ymdrin â'i ystod o gyfrifoldebau, cyflwynid Blaenraglen Waith ym mhob cyfarfod, gan nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen.

Atodwyd Blaenraglen Waith 2024/25 wedi ei diweddarau yn Atodiad A yr adroddiad.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddarau neu ofyn am newidiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio fod adroddiadau yn cyfeirio at safonau mewnol y sector cyhoeddus, ac o 1 Ebrill 2025, byddai safonau mewnol byd-eang newydd yn cael eu cyflwyno, felly byddai cyflwyniad ar y rheiny'n cael ei roi yn y cyfarfod nesaf.

Nodwyd bod cynrychiolwyr o Fargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd wedi cytuno i fynychu cyfarfod mis Chwefror i roi trosolwg o'u cyfrifon. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd hysbysu'r Aelodau o'r hyn y byddai eu cyflwyniad yn ei gynnwys cyn cyfarfod y Pwyllgor.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i wahodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a'r Rheolwr Gweithredol Cylch Bywyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cod Ymddygiad Swyddogion.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.
- (2) Cymeradwyo'r rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 17 Chwefror, 2025 drwy gunny's cyflwyniad diweddarau ynghylch safonau archwilio newydd a chais i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a'r Rheolwr Gweithredol Cylch Oes ddarparu diweddariad ar y Côt Ymddygiad i Swyddogion.

Rheswm dros y penderfyniadau

- (1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.